



# Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i [ymuno â'n rhestr bostio](#).

# Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



## Neges gan Arwyn Thomas a phawb yn GwE

Hyderwn eich bod i gyd yn cadw'n iawn yn yr amgylchiadau hynod anodd hyn. Efallai y bydd yn beth amser cyn y byddwn yn dychwelyd i ysgolion am addysg ffurfiol, ond bu'n galonogol iawn gweld sut yr ydych yn dod ynghyd fel cymuned yr ysgol ac yn mynd i'r afael â'r her o roi arweiniad i staff, rhieni a dysgwyr.

Gwyddom fod rhai ohonoch a chymuned eich ysgol yn mynd trwy amser anodd ar lefel bersonol. Rydym yn meddwl amdanoch, eich staff a'ch disgyblion a byddwn yn parhau i'ch cefnogi hyd eithaf ein gallu.

Hoffem ddiolch i bob un ohonoch chi am sut yr ydych wedi ymateb i'r heriau presennol. Mae hyn yn ddull newydd o weithio i bawb, a byddwn yn parhau i'ch cefnogi wrth i ni barhau ar y daith hon.

Cadw'n Ddiogel. Stay Safe.  
Dal ati i Ddysgu. Stay Learning.



## Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

Ddydd Llun (20/04/20), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei pholisi i gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod o darfu parhaus oherwydd Covid-19. Bwriad datganiad polisi [Cadw'n Ddiogel. Dal ati i ddysgu: Parhad Dysgu](#) yw sicrhau lles staff a dysgwyr ar draws y wlad tra byddant yn cefnogi dysgwyr i gael mynediad at ddysgu o bell. Mae pob un ohonom yn cydnabod bod staff ar draws ein hysgolion wedi bod yn gwneud gwaith gwych o ran ymgysylltu â dysgwyr a gwarchod eu lles. Rydym hefyd yn cydnabod bod ysgolion ar gamau gwahanol o ran datblygu eu strategaeth dysgu o bell.

Fel rhan o'r rhaglen hon, mae consortia gwella ysgolion rhanbarthol, ar y cyd ag Estyn a CCAC, wedi [datblygu'r cyngor hwn ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr - Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#). Nid yw'r ddogfen hon yn statudol.



Mae hefyd yn ymwneud â [chyngor i rieni/gofalwyr](#) drwy'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu' a'r adnoddau [Dysgu o Bell drwy Hwb](#)

Yn ogystal â'r arweiniad, mae adnoddau ar gael i helpu gyda pharatoi gweithgareddau dysgu. Rhennir y rhain â chi drwy eich Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

### CYSYLLTIADAU:

- [Canllawiau COVID-19 i rieni a gofalwyr i gefnogi teuluoedd i aros yn ddiogel, yn iach ac i ddal ati i ddysgu](#)
- [Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#)
- [Cyngor newydd i gynorthwyo arweinwyr ysgolion ac UC Dau i barhau â busnes ysgol](#)
- [Offer dysgu o bell drwy Hwb](#)

## Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

### Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar [post@GwEGogledd.Cymru](mailto:post@GwEGogledd.Cymru) ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



### Adnoddau GwE ar Google Classroom

Gan y bydd defnydd cynyddol o wasanaethau digidol dros yr wythnosau nesaf mae GwE yn coladu sawl ffynhonnell arweiniad i'ch cefnogi, beth bynnag yw eich lefel o brofiad yn y maes. Fel man cychwyn, mae arweiniad ar [Google Classroom](#) a Microsoft Teams wedi ei ddarparu. Byddwn yn ychwanegu mwy o arweiniad ar wahanol adnoddau sy'n cefnogi 'dysgu o bell' dros yr wythnosau nesaf. Ceir gwybodaeth bellach [yma](#).

### Diweddariadau Covid-19 GwE

Er mwyn ei gwneud yn haws i gael ffynhonnell a chyfeirbwynt, rydym wedi creu [gofod penodol ar ein gwefan](#) lle byddwn yn cynnwys holl ddiweddariadau gwybodaeth GwE a anfonwyd i ysgolion.

Bydd y gofod hefyd yn cynnwys dolenni defnyddiol, diweddariadau gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru ac ati.

### Diweddariad ar Ganllawiau Athrawon Newydd Gymhwyso

Cafwyd lluo o ymholiadau ynglŷn ag athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud eu cyfnod sefydlu, a sut y bydd cau ysgolion yn effeithio ar eu gallu i lwyddo yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Gweler y canllawiau sefydlu diweddaraf, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Addysg [yma](#).

#### [Canllawiau ANG'au - Ebrill 2020](#)

Yn ystod y pythefnos diwethaf mae pedwar cynrychiolydd y consortiwm wedi cynhyrchu taflen "cwestiynau cyffredin" yn ogystal â chreu dau fideo i ANG i geisio egluro canllawiau dros dro LIC a gyhoeddwyd ychydig wythnosau yn ôl.



A fydddech cystal â sicrhau bod yr arweiniad diweddar yn cyrraedd eich ANG yn eich ysgolion. Fel y tro diwethaf, bydd GwE yn cysylltu â'r Gwirwyr Allanol. Bydd y canllawiau hefyd ar gael ar wefannau GwE, CGA, Hwb a Llywodraeth Cymru.



Cyswllt y Fideo ar YouTube



Ffurflen Parhad Dysgu ac Addysgu



Trefniadau Sefydlu ANG yn Ystod COVID-19 – Cwestiynau Cyffredin

Manylion cyswllt arweinydd sefydlu GwE:

Ieuan Jones

✉ [ieuanjones@gwegogledd.cymru](mailto:ieuanjones@gwegogledd.cymru)

## Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

### Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru

Mae dolenni defnyddiol eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r coronafirws i'w gweld isod:

- [Gwefan](#) Coronafirws Llywodraeth Cymru
- Coronafeirws (COVID-19): [canllawiau lleoliadau addysgol](#)
- Coronafeirws: [canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr](#)
- Cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>
- Dilynwch ar Twitter [@LIC\\_Addysg](#) neu [www.facebook.com/addysgcymru](http://www.facebook.com/addysgcymru)

### Llywodraeth Cymru - Canllaw i Rien i a Gofalwyr

[Cliciwch yma](#) i weld y canllawiau gan Lywodraeth Cymru i Rien i a Gofalwyr ynghylch y feirws Covid-19.

### Cylchlythyr Dysg

Sicrhewch eich bod yn derbyn diweddariadau a datblygiadau wythnosol Llywodraeth Cymru ar y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Cofrestrwch i Dysg [yma](#)

## Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

### CaBan AGA

I ysgolion sydd â chweched dosbarth mae gan AGA CaBan ychydig o lefydd o hyd ar gyrsiau TAR a BA Anrhydedd (SAC) cynradd ac uwchradd. Gellir gwneud cais drwy'r system glirio pan fydd yn agor.



## Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2020

Yn sgil y sefyllfa bresennol, penderfynwyd gohirio digwyddiad Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru eleni a oedd i'w gynnal ddydd Sul 17 Mai yng Nghastell Hensol.

Byddwn yn cadarnhau dyddiad newydd ar gyfer hydref/gaeaf 2020 maes o law.

## BookTrust Cymru

Mae tudalen amser cartref newydd BookTrust Cymru bellach yn fyw.

Gallwch fynd i'r wefan yma:



<https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/hometime-cymru>



<https://www.booktrust.org.uk/hometime-cymru>



## SSCE Cymru

Mae SSCE Cymru yn darparu gwybodaeth / cyngor / canllawiau a chyfeiriad at sefydliadau ac adnoddau sy'n berthnasol i gefnogi plant milwyr yn ystod pandemig y Coronafeirws. [Cliciwch yma](#) i fynd i'r dudalen.

Am gopi o'u newyddlen, [cliciwch yma](#).



📧 [post@gwegogledd.cymru](mailto:post@gwegogledd.cymru)

